

Canllaw Cynllunio Atodol: Tai newydd mewn pentrefi gwledig



Ebrill 2010

www.gwynedd.gov.uk

Uned Polisi a Pherfformiad, Gwasanaeth
Amgylcheddol, Adran Rheoleiddo (Cynllunio,
Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd),
Cyngor Gwynedd



CYNNWYS

	Paragraff
Datganiad am ymgynghori	1 - 2
Pwrpas Canllawiau Cynllunio Atodol	3 – 4
Cefndir	5 – 9
Lleoliad Tŷ Newydd	10 - 14
Cydymffurfio a'r diffiniad o "Lleol"	15 - 16
Cydymffurfio a'r diffiniad o "Angen"	17 – 20
Ty fforddiadwy	21 – 23
Fforddiadwyedd i'r dyfodol	24 – 25
Cysylltiadau	26
Atodiad A – Rhestr o bentrefi gweledig yn ardal y Cynllun Datblygu Unedol	
Atodiad B – Polisi CH5	
Atodiad C – Cysylltiadau	

Datganiad am ymgynghori

- 1 Fe fuodd y fersiwn drafft o'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) yma'n destun ymgynghoriad cyhoeddus o 3 Rhagfyr 2009 i 14 Ionawr 2010. Fe gyhoeddwyd rhybudd cyhoeddus yn y Caernarfon & Denbigh Herald ac yn y Cambrian News ar 3 Ragfyr 2009 i roi gwybod am yr ymgynghoriad cyhoeddus. 'Roedd copiau o'r CCA ar gael i'w gweld ym mhrif swyddfeydd y Cyngor, yn y llyfrgelloedd cyhoeddus ac ar wefan y Cyngor yn ystod y cyfnod ymgynghori. Fe ofynwyd am sylwadau gan amryw o unigolion a sefydliadau, a oedd yn cynnwys cynghorau cymuned. Gellir gweld crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd a'r ymateb iddynt mewn dogfen "Datganiad o ymgynghoriad – Rhagfyr 2009".
- 2 Fe gafodd y sylwadau a'r ymateb iddynt eu craffu gan y Pwyllgor Amgylchedd ar 9 Chwefror 2010. Cafodd y CCA ei fabwysiadu yng nghyfarfod Bwrdd y Cyngor ar 9 Mawrth 2010.

Pwrpas Canllawiau Cynllunio Atodol

- 3 Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) yma'n un o gyfres o ganllawiau sy'n ategu polisïau'r Cynllun Datblygu Unedol (CDU) mabwysiedig. Tra mai polisïau mabwysiedig y Cynllun Datblygu fydd sail gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio (yn unol â'r hyn a nodir yn rhan 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004), mae cynnwys y CCA yn ystyriaeth gynllunio faterol (wedi iddo gael ei fabwysiadu gan y Cyngor).
- 4 Yn gyffredinol, pwrpas y CCA yma yw i:
 - a. Gynorthwyo a rhoddi arweiniad i'r cyhoedd a'u hasiantau ynglyn a'r math o amgylchiadau lle gellir edrych yn ffafrïol ar adeiladu ty newydd mewn pentrefi gwledig sydd wedi cael eu hadnabod yn y CDU, ac i
 - b. Gynorthwyo swyddogion achos a phwyllgorau cynllunio i wneud penderfyniadau deallus ar geisiadau cynllunio. Bydd yn fodd i hyrwyddo ymagwedd gyson wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio.

Cefndir


- 5 Mae'r canllaw yma yn rhoi cyfarwyddyd ar ddatblygu tai newydd mewn Pentrefi Gwledig yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Fel rhan o hierarchaeth aneddleoedd mae yna 41 o Bentrefi Gwledig wedi eu hadnabod yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd (CDU) – gweler y rhestr yn Atodiad A. Y rhain yw'r pentrefi lleiaf lle caniateir datblygiad cyfyngedig sydd yn wirioneddol angenrheidiol i ddiwallu anghenion am dai newydd yn codi o fewn cymunedau lleol. Ystyrir bydd y galw am dai newydd i bobl mewn angen yn gymesur gyda phoblogaeth isel Pentrefi Gwledig.
- 6 Ceir arweiniad cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru (2002), fel y'i diwygiwyd, sy'n cydnabod y gall llenwi bylchau, a gwneud man estyniadau i grwpiau o dai yng nghefn gwlad fod yn dderbyniol, cyn belled a bod hyn wedi ei selio ar bolisïau yn y cynllun datblygu ac yn adlewyrchu anghenion lleol. Lluniwyd polisi lleol yn y CDU i gyd-fynd a'r arweiniad cenedlaethol yma, sef Polisi CH5 - "Tai Newydd Mewn Pentrefi Gwledig" (gweler Atodiad B). Polisi CH5 yw dehongliad Cyngor Gwynedd o'r arweinaid cenedlaethol ac felly fe fydd cynigion ar gyfer adeiladu ty o fewn neu wrth ymyl unrhyw grwp arall o dai yng nghefn gwlad yn cael ei ystyried yn erbyn gofynion Polisi CH9 y CDU.

- 7 Nodweddir Pentrefi Gwledig gan gymeriad cymdeithasol ac amgylcheddol sensitif iawn ynghyd a lefel gymharol gyfyngedig o wasanaethau a chyfleusterau. Ar y cyfan maent yn fychan o ran maint, y rhan fwyaf wedi ei lleoli yng nghefn gwlad un ai mewn cnewyllyn clos o dai neu yn wasgaredig dros ardal eangach. Mae pob Pentref Gwledig wedi ei ddangos ar fap mewnosodiad yn y CDU trwy liwio'r adeiladau perthnasol mewn coch.
- 8 I gydymffurfio a'r CDU mi fydd yn hanfodol i ddarpar ymgeiswyr sicrhau bod y safle'n briodol i'w ddatblygu ac i ddangos yn ddiamheuol eu bod:-
 - Yn lleol (gweler isod)
 - Mewn angen tŷ fforddiadwy yn yr ardal dan sylw ac nad oes modd iddynt gwrrdd a'u angen drwy y farchnad dai agored yn lleol (gweler isod)
 - Yn barod i adeiladu tŷ sydd yn fforddiadwy o ran maint a chost ac i gadw'r ty yn un fforddiadwy ar gyfer y dyfodol
- 9 Yng ngweddill y canllaw ceir eglurhad manwl ar sut i ddehongli Polisi CH5 ar gyfer rhoi cymorth i ddarpar ymgeiswyr cynllunio. Yn ogystal, dylai ymgeiswyr ddarllen y Canllawiau Cynllunio Atodol - Tai Fforddiadwy (2009) am fwy o fanylder ar rai agweddau yn enwedig ar y wybodaeth bersonol bydd angen cyflwyno i'r Cyngor. Gellid trafod y math o wybodaeth bersonol a fydd disgwyl i ymgeiswyr ei ddarparu gyda'r Swyddog Tai Fforddiadwy cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol. (gweler Atodiad C)

Lleoliad Tŷ Newydd

- 10 Esboniwyd eisoes bod pob Pentref Gwledig wedi ei ddangos mewn map mewnosodiad y CDU a bod adeiladau y pentref wedi eu lliwio ar y map. Mae posib lleoli tai newydd drwy fewnlenwi rhwng yr adeiladau sydd wedi eu lliwio neu ar safle yn union gerllaw. Diffinnir safle fewnlenwi fel bwlch bychan mewn llinell barhaol o ddatblygiad adeiledig lle mae posib lleoli un neu ddau o dai.
- 11 Mae'n ofynnol i safle sydd yn union gerllaw eiddo liwiwyd fod yn safle sy'n gorgyffwrdd â chwrtill yr eiddo hwnnw a bod y datblygiad yn gwneud y defnydd gorau o'r safle. Mae'r deigram isod yn dangos lleoliad safleoedd a all gydymffurfio a'r maen prawf yma. Lle'n bosib, dylid cadw nodweddion naturiol presennol megis bryn, gwrych, coeden neu nant fechan. Mewn eithriadau yn unig lle mae cadw nodweddion naturiol yn bwysig i gymeriad pentref, rhoddir ystyriaeth i leoli tŷ lle nad yw'r safle newydd yn gorgyffwrdd yn union a chwrtill adeilad a liwiwyd, cyn belled nad yw'r safle yn creu datblygiad tameidiog ymwithiol sy'n groes i batrwm datblygu cyffredinol yr anheddle, bod bwlch sylweddol/ arwyddocaol rhwng yr eiddo liwiwyd a'r safle sydd dan sylw neu bod y datblygiad yn creu ymwithiad i gefn gwlad agored. Ni fydd lleoli tŷ newydd cryn bellter o eiddo a liwiwyd am resymau perchnogaeth yn foddhaol. I'r polisi weithio'n effeithiol bydd yna ddisgwyliad i dirfeddianwyr lleol ryddhau lleiniau sydd yn agos i'r adeiladau a liwiwyd ar y mapiau.
- 12 Mae'n bwysig cadw mewn cof mai dim ond un maen prawf ym Mholisi CH5 yw'r un sy'n cyfeirio at yr angen i'r safle fod yn un sydd rhwng dau adeilad a liwiwyd neu'n safle sy'n union gerllaw adeilad a liwiwyd. Fe fydd angen i'r datblygiad gydymffurfio a maen prawf 3 o'r un Polisi, sy'n ymwneud a mesur

gallu'r datblygiad i integreiddio a chysylltu'n dda gyda phatrwm datblygu presennol y pentref a chymeriad yr ardal leol.



- 13 Ni fydd yr awdurdod cynllunio'n cefnogi mwy na dau dy ar y tro. Trwy gyfyngu ar y dewis o safleoedd lle gellir cael caniatâd cynllunio cyfyngir ar y nifer o dai fydd yn cael eu hadeiladu. Cymharol isel hefyd fydd y niferoedd o bobl yn bodloni'r prawf lleol ac angen (gweler isod).
- 14 Er mwyn cael mwy o wybodaeth ar faterion dylunio mae Canllawiau Dylunio a gyhoeddwyd gan yr awdurdod cynllunio yn rhoi cyngor ar sut i ddylunio annedd er osgoi creu datblygiad ymwithiol i gefn gwlad. Ni roddir caniatâd i safle sydd ddim yn cydymffurfio a'r canllawiau uchod hyd yn oed lle gellir profi angen lleol.

Cydymffurfio a'r diffiniad o "Lleol"

- 15 Fel man cychwyn mae rhaid i ddarpar ymgeisydd fod yn lleol i ardal cymuned y Pentref Gwledig lle bwriedir adeiladu tŷ – gelwir hyn yn "**lleol cymunedol**". Mae'r CDU yn diffinio i bwrpas datblygu mewn Pentref Gwledig, bod rhaid i berson gael cysylltiadau agos gyda'r gymuned a boddhau un o'r gofynion canlynol:-
- wedi byw yn ardal y Cyngor Cymuned am gyfnod parhaol o ddeng mlynedd yn union cyn gwneud y cais cynllunio neu gymryd meddiant o'r eiddo
 - wedi bod yn byw oddi mewn ardal y Cyngor Cymuned am gyfnod parhaol o ddeng mlynedd neu fwy yn y gorffennol
 - wedi byw neu weithio am gyfnod parhaol o ddeng mlynedd neu fwy o fewn 4 milltir fel "hed y fran" o "graidd" y Pentref Gwledig (sef ble mae'r adeiladau a liwiwyd ar y map mewnosodiad) ble leolir safle'r cais penodol
- 16 Fe fydd angen cyflwyno tystiolaeth i ddangos yn ddiagramheuol bod person wedi byw neu wedi gweithio mewn ardal gymunedol yn y gorffennol megis llythyr gan gyflogwr, hen filiau dros gyfnod i brofi preswyliaeth annedd neu gofnodion ysgolion lleol. Nid oes diben cyflwyno cais cynllunio os nad yw person yn cydymffurfio a'r prawf lleol gymunedol.

Cydymffurfio a'r diffiniad o "Angen"

- 17 Mae llawer o bobl yn dymuno byw mewn pentrefi bach gwledig a gyda pholisïau cynllunio llac buan iawn y byddai gor-ddatbygiad yn newid eu cymeriad ffisegol a chymdeithasol. I gyfyngu ar raddfa datblygiadau newydd dim ond pobl leol mewn angen gwirioneddol am dy fydd gyda'r hawl i geisio am dy newydd mewn Pentref Gwledig. Yn y cyswllt yma mae pobl mewn gwir angen wedi eu diffinio fel rhai sy'n perthyn i un o'r categorïau canlynol:
- Pobl sydd ddim yn berchen ar dy ac yn sefydlu aelwyd newydd e.e. priodi, cyd-fyw, pobl ifanc, ayb.
 - Pobl sydd ddim yn berchen ar dy ac yn symud o lety a rentwyd lle buont yn byw am o leiaf dwy flynedd (ystyrir llai na dwy flynedd i fod yn rhy fyrhoedlog)
 - Pobl sydd yn berchen ar dy ond angen tŷ newydd i gwrdd ag anghenion dilys e.e. tŷ rhy fychan i'r teulu neu fod y Cyngor wedi datgan fod y tŷ mewn cyflwr is-safonol a lle gellir profi nad yw'n bosibl i addasu'r cartref presennol, na'i uwchraddio, mewn modd derbyniol i gwrdd â'r anghenion hynny neu fod y ty presennol yn anaddas oherwydd anghenion yn gysylltiedig ag anabledd, salwch tymor hir neu anawsterau ffisegol eraill ac na all perchnogion brynu tŷ addas o'r stoc bresennol.
- 18 Mae'n ofynnol i ddarpar ymgeisydd gyflwyno Datganiad Tai Fforddiadwy a fydd yn fodd o gyflwyno'r dystiolaeth sy'n angenrheidiol i allu asesu addasrwydd y cynnig. Fe fydd y dystiolaeth yma o reidrwydd yn cynnwys gwybodaeth ariannol i ddangos nad oes gan yr ymgeisydd y modd ariannol i wella eu sefyllfa byw trwy brynu neu rentu ty sydd ar gael ar y farchnad agored yn yr ardal leol (gweler y diffiniad ym mharagraff 13 uchod). Rhoddir

ystyriaeth hefyd i unrhyw eiddo a werthwyd neu a gafwyd gwared ohono gan ddarpar ymgeisydd.

- 19 Fe ddylid gyrru unrhyw wybodaeth sensitif/ bersonol i'r Swyddfa Ardal Cynllunio Leol berthnasol neu i'r Swyddog Tai Fforddiadwy yn ol y gofyn a'i farcio fel a ganlyn: 'Cyfrinachol ar gyfer sylw'r Rheolwr Cynllunio Ardal' neu 'Cyfrinachol ar gyfer sylw'r Swyddog Tai Fforddiadwy'. Fe gaiff yr wybodaeth ei weld gan y canlynol yn unig yn ôl y gofyn:
 - i. Rheolwr Cynllunio'r Ardal
 - ii. Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio
 - iii. Pennaeth Adran Rheoleiddio
 - iv. Swyddog achos cynllunio
 - v. Swyddog Tai Fforddiadwy
 - vi. Gwiriwr annibynnol cymwysiedig apwyntwyd gan yr Awdurdod
- 20 Yn y cyswllt yma gellir cael mwy o wybodaeth yn y Canllawiau Cynllunio Atodol - Tai Fforddiadwy (2009) neu gysylltu yn uniongyrchol a'r Swyddog Tai Fforddiadwy (gweler Atodiad C). Bydd unrhyw wybodaeth bersonol/ arainnol a gyflwynir yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol.

Tŷ Fforddiadwy

- 21 Mae rhaid i'r tai a adeiladir mewn Pentrefi Gwledig fod yn fforddiadwy heddiw ac ar gyfer y dyfodol. O ganlyniad i'r cynnydd uchel a sydyn ym mhrisiau tai dros y blynyddoedd diwethaf o'i gymharu â lefelau cyflog cyfartalog ardaloedd gwledig, mae nifer helaeth o bobl yn methu prynu tai yn lleol. Os am adeiladu tai newydd ar gyfer diwallu angen lleol, mae'n bwysig i'r tai fod yn fforddiadwy o'r cychwyn ac yn parhau yn fforddiadwy ar gyfer pobl lleol mewn angen yn y dyfodol. Heb amheuaeth, bydd maint a dyluniad tŷ yn effeithio ar ei fforddiadwyedd felly dylid cynllunio tŷ o fewn y canllawiau maint gyda dyluniad sy'n cydweddu a chymeriad cefn gwlad. Bydd leihau ar faint yr ardd hefyd yn gyfrwng i gadw'r tŷ yn fforddiadwy.
- 22 Mewn rhai achosion dylid edrych ar y posibilrwydd o adeiladu parau o dai mewn lleoliad addas, cyn belled bod angen am ddau dy wedi ei brofi. Ceir syniad o faint tŷ a phris gwerthu/ rhentu tŷ fforddiadwy yn Rhan 5 ac Atodiad 2 yn y Canllawiau Cynllunio Atodol - Tai Fforddiadwy (2009), yn ol eu trefn.
- 23 Er mwyn rheoli meddiannaeth tŷ i'r dyfodol fel arfer bydd cytundeb cyfreithiol 106 yn cael ei osod ar yr hawl cynllunio i gyfyngu preswyliaeth y tŷ annedd i drigolion lleol gydag angen am dŷ fforddiadwy fel ag y diffiniwyd yn flaenorol yn y canllaw yma. Oherwydd rwymedigaeth o'r fath mi fydd pris/ rhent yr eiddo yn llai na gwerth y farchnad agored ac felly yn fforddiadwy i bobl sydd mewn angen pan ddaw ar y farchnad yn y dyfodol.

Fforddiadwyedd i'r dyfodol

- 24 Fe fydd yn ofynnol i breswlydd ty newydd arwyddo cytundeb cyfreithiol a elwir yn gytundeb 106. I'r pwrpas yma, mae cytundeb safonol yn barod gyda'r awdurdod cynllunio. Mae'r cytundeb yn cyfyngu perchnogaeth y ty i berson lleol cymunedol ac sydd mewn angen yn unol â'r polisi. Golyga hyn bod rhaid gwerthu/ rhentu'r tŷ i berson arall mewn angen lleol cymunedol am dy

fforddiadwy ac ni cheir gwerthu/ rhentu ar y farchnad agored i unrhyw berson arall. Mae hyn yn cyfyngu ar nifer o bobl a all brynu'r eiddo ac o'r herwydd bydd pris gwerthu/ rhentu'r tŷ yn llai na thai a werthir neu sydd ar gael i'w rhentu ar y farchnad agored. Un o amcanion y polisi yw cadw prisiau/ rhent tai yn is na'r farchnad agored er mwyn i bobl leol gystadlu yn y farchnad tai. Dylid cyfeirio at y Canllawiau Cynllunio Atodol - Tai Fforddiadwy (2009) i weld y camau perthnasol ar gyfer gwerthu tŷ gyda chytundeb 106 angen lleol am dy fforddiadwy.

- 25 Un ffordd arall o gadw pris y tai rhag cynyddu yw i reoli hawliau datblygu caniatadol perchennog annedd i addasu neu roi estyniad ar yr eiddo. Trwy wneud hyn mi fydd rhaid i berchennog gyflwyno cais cynllunio am estyniad cymharol fychan. Ni fydd yr awdurdod cynllunio yn debygol o gefnogi estyniadau mawr i eiddo sydd, yn ei thyb, y tu hwnt i'r angen lleol neu yn debygol o godi gwerth dros trothwy fforddiadwyedd. Oherwydd bydd y cynigion llwyddiannus yn cwrdd ag angen lleol cymunedol penodol am dy fforddiadwy, disgwylir i'r datblygiad ddigwydd yn fuan ar ol derbyn y caniatad cynllunio. Defnyddir amod cynllunio a fydd yn cyfyngu ar oes y caniatad cynllunio.

Cysylltiadau

- 26 Mae swyddogion cynllunio ar gael i drafod unrhyw agweddau gyda darpar ymgeiswyr cyn cyflwyno cais cynllunio. Yn ogystal cyflogir Swyddog Tai Fforddiadwy i roi cymorth ar faterion ariannol a phersonol i'r ymgeisydd Mae rhestr o'r swyddogion perthnasol a sut i gysylltu â hwy wedi ei gynnwys yn Atodiad C.

ATODIAD A – Rhestr o bentrefi gwledig yn ardal y Cynllun Datblygu Unedol

Pentrefi Gwledig Arfon	Aberpwl, Bethesda Bach/ Ty'n Lôn, Dinorwig, Dolydd/ Maen Coch, Gallt y Foel, Glasinfryn, Groeslon Waunfawr, Llanfaglan, Llanllechid, Mynydd Llandygái, Nebo, Pentir, Rhos Isaf, Saron, Talybont, Tan y Coed, Y Fron
Pentrefi Gwledig Dwyfor	Boduan, Bryncir, Bryncroes, Bwlchtocyn, Dinas, Llanarmon, Llangian, Llangybi, Llaniestyn, Llannor, Llwynhudol, Pantglas, Pencaenewydd, Penmorfa, Penrhos, Pentreuchaf, Pistyll, Y Rhiw, Rhosfawr, Sarn Bach
Pentrefi Gwledig Meirionnydd	Aberllefenni, Corris Uchaf, Glanrafon, Llanfor

ATODIAD B

POLISI CH5 – TAI NEWYDD MEWN PENTREFI GWLEDIG

Yn y Pentrefi Gwledig caniateir cynigion am ddatblygiad preswyl sy'n cynnwys un neu ddwy uned yn unig. Bydd yn rhaid i'r cynigion gydymffurfio a'r holl feini prawf canlynol:

1. bod angen lleol cymunedol am dy fforddiadwy wedi ei brofi ;
2. bod y safle'n un fewnlenwi rhwng adeiladau sydd wedi eu lliwio ar y map mewnosod perthnasol, neu'n safle yn union gerllaw adeilad sydd wedi ei liwio,
3. na fydd y cynnig yn creu nodwedd ymwithiol i gefn gwlad, yn creu patrwm datblygiad tameidiog, nac yn creu datblygiad ar ffurf rubanog yn groes i batrwm datblygu cyffredinol yr anheddle;
4. bod maint yr eiddo yn adlewyrchu'r angen penodol o safbwynt maint cyffredinol yr eiddo a'r nifer o ystafelloedd gwely.
5. oherwydd y lleoliad gwledig mwy sensitif nag arfer, bydd gofyn bod y datblygiad yn gwneud y defnydd gorau o nodweddion naturiol y safle ac yn cadw unrhyw nodweddion naturiol y safle neu ar ffin y safle sy'n werth eu cadw.
6. bod trefniadau boddhaol ar gael i gyfyngu meddianaeth y tŷ yn y lle cyntaf ac am byth i rai sydd gydag angen lleol cymunedol am dy fforddiadwy.

Pan ganiateir datblygiad defnyddir amod cynllunio i reoli Hawliau Datblygu a Ganiateir er mwyn sicrhau na fyddai estyniad neu addasiadau yn codi pris yr eiddo tu hwnt i bris tŷ fforddiadwy sy'n diwallu angen lleol cymunedol. Yn ogystal bydd amod cynllunio'n cael ei ddefnyddio i sicrhau y bydd y nifer cyfyngedig y caniatad a roddir yn cael eu dwyn ymlaen yn hwylus er mwyn diwallu angen lleol cymunedol am dai fforddiadwy.

ATODIAD C: CYSYLLTIADAU

Swyddog Tai Fforddiadwy Cyngor Gwynedd

Swyddog Tai Fforddiadwy
Uned Cyfeiriad Strategol
Polisi a Perfformiad Corfforaethol
Cyngor Gwynedd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH
01286 679 498

Ebost taifforddiadwy@gwynedd.gov.uk

Tim Polisi Cynllunio Cyngor Gwynedd

Tim Polisi Cynllunio
Gwasanaethau Amgylcheddol
Adran Rheoleiddio
Cyngor Gwynedd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Ebost polisicynllunio@gwynedd.gov.uk

Adran Rheolaeth Datblygu Cyngor Gwynedd

<p>Adain Rheolaeth Cynllunio Ardal Arfon Swyddfa Ardal Arfon Cyngor Gwynedd Penrallt Caernarfon Gwynedd LL55 1BN 01286 682 765</p> <p>Ebost Cynllunio@gwynedd.gov.uk Planning@gwynedd.gov.uk</p>	<p>Adain Rheolaeth Cynllunio Ardal Dwyfor Swyddfa Ardal Dwyfor Cyngor Gwynedd Lon y Cob Pwllheli Gwynedd LL53 5AA 01758 704 118</p> <p>Ebost: Cynllunio@gwynedd.gov.uk Planning@gwynedd.gov.uk</p>
<p>Adain Rheolaeth Cynllunio Ardal Meirionnydd Swyddfa Ardal Meirionnydd Cyngor Gwynedd Cae Penarlag Dolgellau Gwynedd LL40 2YB 01341 424 414</p> <p>Ebost: Planning@gwynedd.gov.uk Cynllunio@gwynedd.gov.uk</p>	

Gwasanaeth Tai Cyngor Gwynedd

Gwasanaeth Tai Swyddfa Ardal Arfon Cyngor Gwynedd Penrallt Caernarfon Gwynedd LL55 1BN 01286 673 113	Gwasanaeth Tai Swyddfa Ardal Dwyfor Cyngor Gwynedd Lon y Cob Pwllheli Gwynedd LL53 5AA 01758 613 131	Gwasanaeth Tai Swyddfa Meirionnydd Cyngor Gwynedd Cae Penarllog Dolgellau Gwynedd LL40 2YB 01341 422 341
---	---	--

HWYLUSYDD TAI GWLEDIG

Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd
Swyddfa Tai Eryri
Sgwar y Parc
Blaenau Ffestiniog
Gwynedd
LL41 3AD
01766 833018
Ebost arfon@taieryri.co.uk